



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Amddiffyn Plant yng Nghymru

Adolygiadau Ymarfer Plant:
Canllaw i Drefnu a Hwyluso Digwyddiadau Dysgu



Paratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Barbara J. Firth, Ymgynghorydd Hyfforddi Annibynnol

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Rebecca Powell
Tîm Diogelu
Llywodraeth Cymru
Ail lawr
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: Rebecca.powell2@wales.gsi.gov.u



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

Adolygiadau Ymarfer Plant: Canllaw i Drefnu a Hwyluso Digwyddiadau Dysgu

Bwriedir i'r canllaw hwn gael ei ddefnyddio gan *Banelau Adolygu* Byrddau Lleol Diogelu Plant ac adolygwyr. Mae'n egluro proses yr adolygiad, mae'n rhoi manylion ynghylch y rolau a'r tasgau yn ystod pob cam, ac mae'n rhoi enghreifftiau o ddulliau a ffyrdd o gael ymarferwyr a rheolwyr i fyfyrion a dysgu. Dylai'r canllaw hwn gael ei ddefnyddio ar y cyd â'r canllawiau statudol, *Amddiffyn Plant yng Nghymru: Trefniadau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol* (Rhagfyr 2012).

Cynnwys

Rhif Tudalen

1.	Cyflwyniad	1
	Creu'r amodau ar gyfer dysgu	1
	Yr adolygydd	1
2.	Paratoi ar gyfer y digwyddiad a hwylusir	3
	Y cam egluro	3
3.	Y digwyddiad	6
	Diben	6
	Strwythur	6
	Dulliau	9
4.	Ar ôl y digwyddiad	13
	Paratoi adroddiad yr adolygiad ymarfer plant	13
	Rhoi cyflwyniad i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant)	13
	Ôl-drafod	13

Atodiadau

1	Rhagamodau ar gyfer meithrin cydberthnasau effeithiol mewn grŵp	15
2	Enghraifft o lythyr yn gwahodd rhywun i'r digwyddiad dysgu	17
3	Y gwahanol gyfnodau yn neinameg y grŵp	19
4	Enghraifft o egwyddorion gweithio ar gyfer y digwyddiad dysgu	20
5	Enghraifft o ffurflen werthuso	21
6	Dulliau hwyluso	22

Cyflwyniad

1.1. Bwriedir i'r fframwaith dysgu ac adolygu ddarparu amgylchedd lle gall ymarferwyr a'u hasiantaethau ddysgu o'u gwaith achos. Felly, mae'n bwysig bod sylw'n cael ei roi i greu'r amodau ar gyfer dysgu yn syth ar ddechrau'r broses o adolygu achos.

1.2. Efen allweddol o'r trefniadau newydd ar gyfer adolygiadau ymarfer plant yw digwyddiad dysgu wedi'i hwyluso sy'n canolbwyntio ar ymarferwyr ac a gaiff ei arwain gan yr adolygydd, a benodir gan y *Panel Adolygu*. Mae'r digwyddiad hwn yn dod ag ymarferwyr perthnasol ynghyd a oedd yn ymwneud ag achos lle cafodd plentyn neu blant niwed sylweddol, er mwyn iddynt allu rhannu eu dealltwriaeth o'r hyn a ddigwyddodd a nodi pwyntiau dysgu allweddol ar gyfer ymarfer yn y dyfodol.

1.3. Gall adolygu achosion difrifol beri llawer o ofid i unigolion a sefydliadau, ac yn ei dro gall gofid atal dysgu ac arwain at agwedd amddiffynnol ac at anallu i fyfyrion. Fel hwylusydd mae gan yr adolygydd rôl bwysig i'w chwarae o ran rheoli'r gofid hwnnw, ac felly mae'n hanfodol nodi'n gynnar pwy fydd yn ymgymryd â rôl yr adolygydd. Diben hynny yw galluogi'r adolygydd i ymgysylltu â'r broses yn gynnar, gan weithio ochr yn ochr â'r *Panel Adolygu*. Golyga hynny y bydd ymarferwyr yn gallu adolygu, myfyrion a chymryd rhan yn well pan fyddant yn dod ynghyd ar gyfer y digwyddiad dysgu.

Creu'r amodau ar gyfer dysgu

1.4. Mae a wnelo dysgu â gwneud cynnydd, datblygu a symud ymlaen. Mae'r fframwaith dysgu ac adolygu'n dod â phobl ynghyd mewn grwpiau i gydweithio, rhannu syniadau a gwella dealltwriaeth. Felly, rhaid i'r grŵp fod yn endid effeithiol er mwyn gallu cyflawni'r dasg.

1.5. Mae angen bodloni sawl rhagamod i sicrhau effeithiolrwydd¹. Yn gyntaf, mae angen i'r unigolion sy'n rhan o'r grŵp deimlo'n ddiogel fel y gallant ddechrau bod yn agored ac ymgysylltu ag aelodau eraill y grŵp. Os bydd diogelwch a didwylledd ymhlith nodweddion y grŵp, bydd rhywfaint o ymddiriedaeth yn datblygu rhwng y cyfranogwyr, a fydd yn arwain at gyflawni gwir waith y grŵp, sef cwestiynu a herio mewn modd priodol ac adeiladol, a fydd yn arwain at ddatblygu syniadau a chynlluniau gweithredu.

1.6. Mae creu ymdeimlad o ddiogelwch yn fan cychwyn allweddol a all ddigwydd yn syth ar ddechrau'r broses adolygu. Bydd egluro amcanion, nodi diben a bod yn dryloyw ynghylch disgwyliadau i gyd yn helpu i leihau agweddau amddiffynnol a rheoli'r gofid anochel a deimlir mewn sefydliadau a systemau ac ymhlith unigolion.

1.7. Nid yw meithrin ymddiriedaeth mewn grŵp a symud tuag at herio a newid yn broses unionlin o reidrwydd. Ar unrhyw adeg, gellir colli ymddiriedaeth yn y grŵp am nifer o resymau. Wrth hwyluso'r broses, felly, bydd angen monitro'r grŵp yn gyson

¹ Grŵp Datblygiad Proffesiynol, Prifysgol Nottingham yn Charles, M. gyda Stevenson, O. (1990) '*Multidisciplinary is Different*', Prifysgol Nottingham.

ac ailfeithrin ymdeimlad o ddiogelwch weithiau er mwyn adfer didwylledd a chyfathrebu (gweler **Atodiad 1**).

Yr adolygydd

1.8. Mae'r canllawiau yn nodi bod yn rhaid i'r adolygydd fod yn annibynnol ar reolwyr yr achos ac y gallai fod yn aelod o'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu'n aelod o Fwrdd arall, neu y gallai fod yn rhywun o awdurdod cyfagos neu'n unigolyn sydd ag arbenigedd perthnasol fel sy'n ofynnol gan yr achos. Mewn adolygiad estynedig bydd angen dau adolygydd: un sy'n annibynnol ar reolwyr yr achos ond sydd â gwybodaeth am y cyd-destun lleol, ac ail adolygydd a fydd yn cyfrannu her broffesiynol allanol, sy'n annibynnol ar y bwrdd ac sydd ag arbenigedd perthnasol. Bydd y ddau adolygydd yn gyfrifol am graffu ar y materion ychwanegol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr asiantaethau, a byddant yn cydweithio â'r *Panel Adolygu*.

1.9. Mae rôl yr adolygydd yn amlochrog, oherwydd mae'n cynnwys rheoli'r dasg, hwyluso'r broses, rheoli a hwyluso gwaith dysgu'r grŵp, llunio adroddiad yr adolygiad ymarfer plant a llunio cynllun gweithredu amlinellol gyda'r *Panel Adolygu*.

1.10. Felly, mae'n dilyn bod y rôl yn gofyn am ystod eang o wybodaeth, sgiliau a gallu sy'n cynnwys y canlynol:

- Sylfaen wybodaeth a sgiliau ei broffesiwn ei hun.
- Gwybodaeth drylwyr am systemau, materion ac ymarfer ym maes amddiffyn plant.
- Gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr, sefydliadau a gwasanaethau yn y rhwydwaith diogelu rhyngasiantaethol.
- Y gallu i rannu pob un o'r uchod, hynny yw, y gallu i siarad am ymarfer.
- Dealltwriaeth o natur gwaith amlddisgyblaethol.
- Dealltwriaeth o sut y mae oedolion yn dysgu.
- Dealltwriaeth o ddeinameg grŵp.
- Sgiliau i hwyluso a rheoli proses grŵp.
- Y gallu i lunio digwyddiad, ond y gallu hefyd i weithio ar y pryd gyda'r hyn y bydd cyfranogwyr yn ei gyfrannu i'r grŵp.

1.11. Mae angen dau adolygydd ar gyfer adolygiadau estynedig. Mewn rhai amgylchiadau, gellir penodi unigolyn arall i weithio gydag adolygydd mewn adolygiad cryno. Yn ogystal â'r wybodaeth, y sgiliau a'r gallu a restrir uchod, bydd angen iddynt ystyried hefyd sut y gallant weithio ochr yn ochr â'i gilydd. Os nad ydynt wedi cydweithio â'i gilydd erioed o'r blaen, bydd hynny'n golygu treulio rhywfaint o amser yn dod i adnabod ei gilydd o ran gwybodaeth, sgiliau ac arddull ac yn ystyried pwy fydd yn gwneud beth er mwyn sicrhau proses hwyluso effeithiol.

2. Paratoi

2.1. Yn ystod y cam paratoi hwn sy'n arwain at y digwyddiad dysgu, mae pedwar prif faes y bydd yn rhaid i'r adolygydd ganolbwyntio arnynt, sef:

- Ymgysylltu â'r *Panel Adolygu* a gweithio ochr yn ochr ag ef.
- Meithrin dealltwriaeth drylwyr o'r sefyllfa sy'n cael ei hadolygu.
- Dechrau cysylltu â'r rhai a fydd yn cymryd rhan yn y digwyddiad dysgu.
- Cynllunio'r digwyddiad ei hun o ran strwythur a dulliau hwyluso.

2.2. Mae gwaith paratoi gofalus yn hanfodol o safbwynt hybu amgylchedd dysgu, rheoli gofid a pharatoi'r ffordd ar gyfer 'llwyddiant'.

2.3. Pan fydd yr adolygydd wedi'i ddewis a'i gomisiynu, dylid trefnu cyfarfod â'r *Panel Adolygu* er mwyn ystyried sut y bydd yr adolygydd yn gweithio ochr yn ochr â'r grŵp ac er mwyn trafod a chynllunio'r camau nesaf. Bydd yr agenda yn cynnwys:

- Ailedrych ar y cylch gorchwyl a gwneud unrhyw addasiadau os oes angen.
- Gwneud penderfyniadau am linellau amser a chrynodebau o safbwynt pa asiantaethau a gwasanaethau y gofynnir iddynt gwblhau llinellau amser a chrynodebau, a'r dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno.
- Ystyried sut y bwriedir cysylltu ag aelodau'r teulu i weld a ydynt am gyfrannu i'r adolygiad a siarad â'r adolygydd, a phenderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i wneud y cyswllt cyntaf hwn.
- Ystyried y digwyddiad dysgu ei hun o safbwynt cyfranogwyr posibl; dyddiad; lleoliad a hyd. Mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn para diwrnod ar gyfartaledd. Fodd bynnag, efallai y bydd modd cwblhau rhai digwyddiadau'n llwyddiannus mewn hanner diwrnod, ac weithiau mae'n bosibl y bydd angen dau ddiwrnod i ymdrin â sefyllfaoedd cymhleth iawn. Os bydd angen dau ddiwrnod, dylid ystyried a ddylai'r diwrnodau hynny ddilyn ei gilydd ai peidio. Er y byddai cael dau ddiwrnod sy'n dilyn ei gilydd yn ddwys, byddai'n sicrhau llinyn parhaus o ran themâu a gwaith dysgu. Byddai bwlch rhwng y diwrnodau'n cynnig cyfle i'r cyfranogwyr feddwl a pharatoi ymhellach.

Y cam egluro

2.4. Dylai'r *Panel Adolygu* anfon llinellau amser a chrynodebau at yr adolygydd cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl y dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno. Bydd hynny'n rhoi amser i'r adolygydd roi darlenniad cyntaf i'r dogfennau er mwyn nodi'r prif bwyntiau, nodi'r hyn sy'n ei daro ynghylch y sefyllfa, a gweld a oes unrhyw fylchau o ran gwybodaeth neu unrhyw ddiffyg eglurder ai peidio. Mae'n gyfle hefyd i ystyried pwy ddylai fod yn rhan o'r digwyddiad dysgu.

2.5. Y cam nesaf yw cynnal ail gyfarfod rhwng yr adolygydd a'r *Panel Adolygu*, gan gynnwys awduron y llinellau amser a'r crynodebau hefyd os nad ydynt eisoes yn aelodau o'r *Panel Adolygu*. Dylai'r agenda ar gyfer y cyfarfod hwn gynnwys y camau canlynol:

- Egluro'r wybodaeth a llenwi bylchau yn y wybodaeth a gyflwynwyd yn y llinellau amser a'r crynodebau, cyn belled ag y bo'n bosibl. Gallai hynny gynnwys gofyn am ragor o wybodaeth gan awduron y llinellau amser neu aelodau'r *Panel* neu ofyn am gael mynediad i ffynonellau. Dylid cydnabod hefyd na fydd efallai'n bosibl cael gwybod rhai pethau tan y digwyddiad dysgu ei hun.
- Nodi materion a rhagdybiaethau i'w rhoi ar brawf yn y digwyddiad dysgu.
- Cadarnhau pwy ddylai fynychu'r digwyddiad dysgu ac annog aelodau'r *Panel Adolygu* i gysylltu'n anffurfiol â'r bobl hynny cyn iddynt gael llythyr gwahodd.
- Cadarnhau dyddiad, lleoliad a hyd y digwyddiad a phwy fydd yn bresennol i gymryd nodiadau.
- Cadarnhau a fwriedir cysylltu ag aelodau'r teulu i ofyn iddynt gyfrannu i'r adolygiad, a sut y bwriedir cysylltu â hwy.

2.6. Y llythyr gwahodd fydd y cyswllt cyntaf y bydd yr adolygydd yn ei gael â'r sawl a fydd yn cymryd rhan yn y digwyddiad dysgu. Argymhellir y dylai'r llythyr gael ei gadw'n fyr ac yn syml, ond dylai nodi'n glir bod disgwyl iddynt fynychu'r digwyddiad a dylai gynnig cyfle iddynt gysylltu'n uniongyrchol â'r adolygydd os oes ganddynt unrhyw gwestiynau ac ymholiadau ychwanegol ynghylch y digwyddiad. Byddai hefyd yn ddefnyddiol cynnig strwythur i bobl a fydd yn eu galluogi i baratoi, gan y bydd angen iddynt ailystyried eu cyswllt â'r plentyn sy'n destun yr adolygiad. Mae'r enghraifft o lythyr gwahodd yn **Atodiad 2** yn awgrymu y dylent ystyried eu hymwneud â'r plentyn o safbwynt y canlynol:

- Asesiadau.
- Penderfyniadau.
- Camau gweithredu.
- Unrhyw ryngweithio â gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill.
- Agweddau ar ymarfer effeithiol.
- Agweddau lle gellid gwneud rhai gwelliannau.

2.7. Mae gan aelodau'r Panel rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu cyfranogwyr i baratoi ar gyfer y digwyddiad dysgu. Gellir hwyluso gwaith paratoi o'r fath drwy gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng yr aelod priodol o'r *Panel* a'r ymarferwr.

2.8. Yn ystod y cam hwn o ymgysylltu â manylion y sefyllfa, bydd angen i'r adolygydd ystyried sut i strwythuro'r digwyddiad dysgu. Caiff hynny ei ystyried yn fwy manwl yn yr adran nesaf

2.9. Os bydd aelodau'r teulu sy'n berthnasol i'r sefyllfa am gyfrannu i'r adolygiad drwy gyfarfod â'r adolygydd, yr adeg orau i wneud hynny fydd cyn y digwyddiad dysgu er mwyn gallu ymgorffori meddyliau a barn aelodau'r teulu yn rhaglen y dydd a llywio unrhyw gasgliadau a chynlluniau gweithredu. Gall aelodau'r teulu gynnwys rhieni, gofalwyr, neiniau a theidiau, y plentyn, brodyr neu chwiorydd y plentyn ac unrhyw bobl bwysig eraill. Argymhellir bod Cadeirydd y *Panel Adolygu* neu weithiwr proffesiynol priodol arall yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw hefyd. Bydd lleoliad cyfarfod o'r fath yn amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Y lle gorau fyddai lleoliad niwtral a chyfforddus, ond dylai fod yn hygyrch ac yn dderbyniol i aelodau'r teulu hefyd.

2.10. Bydd angen i'r digwyddiad dysgu gofnodi trafodaethau a chyfraniadau, felly mae'n bwysig dewis rhywun i gymryd nodiadau yn ystod y digwyddiad. Yn ddelfrydol, bydd yr unigolyn hwnnw'n gallu cadw cofnodion cywir yn fedrus a bydd ganddo ddealltwriaeth o'r maes, ond ni fydd yn cymryd rhan yn weithredol yn y broses. Mae angen sicrhau perthynas dda rhwng y sawl sy'n cymryd nodiadau a'r adolygydd, felly yn ystod y cam paratoi dylid ystyried sut y byddant yn cydweithio â'i gilydd.

3. Y digwyddiad

Diben

3.1. Diben y digwyddiad dysgu yw dod â staff allweddol ynghyd i fyfrio ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd a dysgu ohono er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol. Gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar systemau, bydd y pwyslais ar ddeall beth a ddigwyddodd, ystyried pam a sut y cynhaliwyd rhai asesiadau ac y gwnaed rhai penderfyniadau, a beth y gellir ei ddysgu ar gyfer y dyfodol. Nid yw dull gweithredu sy'n seiliedig ar systemau'n dod i ben pan fydd diffygion o ran ymarfer proffesiynol wedi'u nodi. Yn hytrach, bydd yn symud ymlaen i archwilio'r modd y bu'r unigolyn yn rhyngweithio â'r cyd-destun ehangach, er mwyn deall pam y datblygodd pethau fel y gwnaethant².

3.2. Felly, er mwyn bodloni'r amcanion hyn, mae'n dilyn ei bod yn bwysig rhoi sylw i'r lleoliad. Rhaid i'r lleoliad yn ogystal â strwythur y dydd hwyluso'r broses, ac felly bydd angen trefnu'r lleoliad mewn modd sy'n sicrhau bod y cyfranogwyr yn gallu gweld ei gilydd a datblygu sgwrs â'i gilydd. Dylai ystafelloedd sydd wedi'u gosod yn yr un modd ag ystafell bwrdd neu ar ffurf pedol neu gylch gynorthwyo hynny, yn ogystal â lle i symud i mewn ac allan o grwpiau bach ac is-setiau, a waliau neu fyrddau arddangos lle gellir gosod llinellau amser a siartiau troi.

3.3. Os bwriedir cynnal y digwyddiad dros gyfnod o ddiwrnod, byddai'n well darparu cinio. Bydd hynny'n helpu'r cyfranogwyr i barhau i feddwl gyda'i gilydd mewn modd llai ffurfiol ac yn osgoi amharu ar y broses.

Strwythur

3.4. Mae digwyddiad dysgu'n wahanol i ddigwyddiad hyfforddi traddodiadol am ei fod yn gofyn i'r hwylusydd weithio ar y pryd gyda'r deunydd a gynhyrchir gan y grŵp, yn hytrach na dilyn rhaglen osod o gyfraniadau ac ymarferion strwythuredig. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod rhywfaint o gydlyniant yn perthyn i'r digwyddiad ac er mwyn i gyfranogwyr ymwneud â'r dasg dan sylw, gweithio arni a dod i rai casgliadau, bydd angen siâp a strwythur ar y digwyddiad ond gan sicrhau nad yw'n rhy strwythuredig.

3.5. Bydd ystyried y gwahanol gyfnodau yn neinameg y grŵp yn darparu canllaw i strwythur cyffredinol y diwrnod. Mae model Heron (gweler **Atodiad 3**) yn tynnu sylw at yr angen i dorri drwy natur amddiffynnol gychwynnol aelodau'r grŵp a'u 'cynhesu' er mwyn iddynt allu ymgysylltu a chyfathrebu â'i gilydd a dechrau bod yn gynhyrchiol a gweithio ar y dasg dan sylw. Mae diwedd y dasg yr un mor bwysig er mwyn gallu nodi'r gwaith dysgu a'r camau gweithredu y gall y cyfranogwyr eu cymryd a'u defnyddio yn eu gwaith parhaus, ac er mwyn i gynlluniau gael eu creu i ddatblygu ymarfer a gwasanaethau'n fwy cyffredinol.

² Fish, S., Munro, E., a Bairstow, S. (2008) *Learning together to safeguard children: developing an inter-agency systems approach for case reviews*. Llundain: Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE).

3.6. Mae'r canllaw hwn eisoes wedi crybwyll yr angen i fynd i'r afael ag agwedd amddiffynnol bosibl a dechrau creu ymdeimlad o ddiogelwch yn gynnar yn y broses, ond bydd rhoi sylw gofalus i ddechrau'r digwyddiad dysgu yn gwneud hynny hefyd. Felly, dylai cyflwyniad i'r digwyddiad ymdrin â'r agweddau canlynol:

- Cyflwyno'r adolygydd/adolygwyr a'r sawl sy'n cymryd nodiadau.
- Cyflwyno'r cyfranogwyr a ddylai nodi eu rôl a rhoi esboniad cychwynnol byr ynghylch pam a phryd y buont yn ymwneud â'r sefyllfa sy'n cael ei hadolygu.
- Egluro diben a phroses y digwyddiad.
- Pennu rhai egwyddorion gweithio neu reolau sylfaenol ar gyfer y digwyddiad a gwneud yn siŵr bod pawb yn cytuno â hwy. Ceir enghraifft o egwyddorion gweithio yn **Atodiad 4**.
- Cytuno i alw'r plentyn/plant wrth ei enw/eu henwau gydol y digwyddiad.
- Rhoi trosolwg o'r sefyllfa sy'n cael ei hadolygu a'r cwestiynau y dylai'r digwyddiad dysgu fynd i'r afael â hwy, a gaiff eu crynhoi yn y cylch gorchwyl.
- Tynnu sylw at y llinellau amser.

3.7. Pan fydd y llwyfan wedi'i osod a'r diben wedi'i egluro, bydd y digwyddiad dysgu yn symud at y brif dasg, sef nodi pwyntiau allweddol, ystyried pwy wnaeth beth, pryd a pham, a thynnu sylw at waith asesu a gwneud penderfyniadau.

3.8. I ddechrau'r broses hon ac i adeiladu ar y rownd gychwynnol o gyflwyniadau, gellir gwahodd y cyfranogwyr i 'adrodd stori' eu hymwneud hwy â'r sefyllfa, gan nodi beth a wnaethant a phryd y digwyddodd hynny. Y ffordd orau o wneud hynny yw mewn dilyniant gan gyfeirio at y llinell amser gyfun er mwyn i'r adolygydd allu hwyluso pob cyfraniad yn nhrefn y digwyddiadau.

3.9. Wrth i'r stori ddatblygu, bydd yn bwysig gofyn i'r cyfranogwyr wahaniaethu rhwng eu meddyliau a'u camau gweithredu ar y pryd a'r doethineb sy'n deillio o allu myfyrion ynghylch y digwyddiad ar ôl iddo ddiwydd. Mewn geiriau eraill, mae a wnelo ag archwilio'r cwestiwn 'pam y gwnaethom ni hynny ar y pryd?' ac yna gofyn 'a allem fod wedi gwneud pethau'n wahanol, a beth fyddai wedi ein helpu i wneud hynny?'

3.10. Wrth i'r drafodaeth a'r gwaith meddwl ddatblygu yn y grŵp, dylai'r adolygydd sicrhau yr ymdrinnir â'r meysydd canlynol:

- A gafodd y risgiau yn y sefyllfa eu nodi a'u deall?
- Sut yr ymgysylltwyd ag aelodau'r teulu?
- Beth oedd barn y teulu ar y pryd a beth yw eu barn yn awr?
- Sut y bu'r gweithwyr proffesiynol yn cydweithio â'i gilydd?

- Beth a weithiodd yn dda? Mae a wnelo hynny â nodi ymarfer effeithiol a nodi'r hyn a hwylusodd yr ymarfer da hwnnw.
- Beth y gellid bod wedi'i wneud yn well a pham na ddigwyddodd hynny ar y pryd?

3.11. I helpu pobl i wneud synnwyr o'u dysgu a pharhau i symud drwy'r broses, mae'n bwysig bod yr adolygydd yn oedi ac yn crynhoi'r drafodaeth ar adegau priodol yn ystod y digwyddiad. Bydd hynny hefyd yn cynorthwyo i nodi'r pwyntiau dysgu sy'n dod i'r amlwg.

3.12. Tynnwyd sylw eisoes at bwysigrwydd sicrhau diwedd glo sydd wedi'i strwythuro'n dda ar gyfer digwyddiad dysgu. Yn ystod y cam olaf hwn, bydd angen ymdrin â llawer o agweddau a fydd yn cynnwys gwaith dysgu unigol a dysgu fel grŵp, gwaith dysgu am y sefyllfa sy'n cael ei thrafod a dysgu am y broses, a strategaethau er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r cyfan ar waith. Felly, dyma'r tasgau y dylid eu cwblhau yn ystod y cam olaf hwn:

- Crynhoi'r pwyntiau dysgu allweddol ynghylch y sefyllfa sy'n cael ei hadolygu.
- Cytuno'n fras ar gynnwys y canlyniad dysgu.
- Amlinellu'r camau nesaf.
- Cynnig cyfle i gyfranogwyr ystyried eu gwaith dysgu personol sy'n deillio o'r diwrnod, a sut i'w ddatblygu.
- Ymwneud â rhywfaint o waith gwerthuso'r digwyddiad dysgu yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys holi sut y mae'r cyfranogwyr yn teimlo ynghylch y broses. Ceir enghraifft o ffurflen werthuso yn **Atodiad 5**.

3.13. Er mwyn gweithio drwy bob un o gamau'r digwyddiad dysgu a chyrraedd canlyniad, bydd gofyn i'r adolygydd roi rhywfaint o ystyriaeth i arddulliau a dulliau hwyluso. Mae model Heron³ (gweler **Atodiad 6**) yn awgrymu tri dull gweithredu. Mae pob un ohonynt yn ddilys, yn dibynnu ar y dasg dan sylw a'r modd y mae'r grŵp yn rheoli'r dasg honno.

3.14. Mae angen arweinyddiaeth gadarn gan yr hwylusydd wrth ddechrau'r digwyddiad dysgu o ran gosod y llwyfan ac egluro'r broses. Yn y sefyllfa hon, bydd yr hwylusydd yn defnyddio dull hierarchaidd neu'n arwain o'r tu blaen. Wrth i'r digwyddiad fynd rhagddo ac wrth i drafodaeth ddatblygu, gall yr hwylusydd symud i'r dull cydweithredol, gan weithio ochr yn ochr â'r grŵp i bob pwrpas. Gallai'r cyfranogwyr eu hunain fod yn awgrymu ffordd o weithio, ac felly bydd y grŵp yn arwain am gyfnod a bydd yr hwylusydd yn cefnogi. Mae'n bwysig bod yr hwylusydd yn gallu symud drwy bob un o'r dulliau hyn, fel sy'n briodol, er mwyn cyd-fynd ag anghenion y rhaglen a'r grŵp. Felly, er enghraifft, os bydd y grŵp yn dod i stop neu os bydd trafodaethau'n crwydro oddi ar y testun, bydd angen i'r hwylusydd symud yn ôl i'r dull hierarchaidd er mwyn cael pethau'n ôl ar y trywydd iawn.

³ Heron, J. (1989) *The Facilitators Handbook*. Llundain: Kogan Page.

3.15. Os bwriedir cynnal digwyddiad dysgu dros gyfnod sy'n hwy nag un diwrnod, neu yn ystod un sesiwn barhaus, bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd o ran pryd i gael egwyl. Wrth ailymgynnull ar gyfer ail ran y digwyddiad, bydd angen crynhoi'n ofalus ac atgoffa'r cyfranogwyr am yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg hyd yma er mwyn eu helpu i ddychwelyd at y broses o ddysgu a myfyrio.

Dulliau

3.16. Er mwyn helpu'r grŵp i ystyried sefyllfa a gwneud synnwyr ohoni gyda'i gilydd bydd angen siâp a strwythur ar gyfer y digwyddiad dysgu, ond bydd angen defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a dulliau hefyd er mwyn hybu trafodaeth a gwneud synnwyr o bethau. Dylai fod modd i'r cyfranogwyr weld y cylch gorchwyl a'r llinell amser gyfun, a dylent fod ar gael iddynt. Gellid gosod y llinell amser ar y waliau. Os oedd y sefyllfa sy'n cael ei hadolygu yn cynnwys materion penodol megis esgeulustod, gallai darparu rhai adnoddau cyfeirio defnyddiol fod o gymorth i hybu gwaith meddwl.

3.17. Ceir amrywiaeth o ddulliau y gellir eu defnyddio, ac maent yn cynnwys y canlynol:

- Gofyn cwestiynau â ffocws er mwyn arwain y drafodaeth ac ysgogi'r cyfranogwyr i feddwl.
- Rhannu'r cyfranogwyr yn grwpiau bach sydd â meysydd penodol i'w hystyried. Er mwyn cofnodi trafodaethau, gellir gofyn i'r is-setiau nodi'r prif bwyntiau ar siartiau troi.
- Cynnal trafodaeth fel grŵp mawr er mwyn nodi'r digwyddiadau arwyddocaol mewn sefyllfa ar sail y llinellau amser cyfun. Yna, gallai is-setiau llai o faint edrych ar bob un o'r digwyddiadau er mwyn ystyried:
 - Pa gamau gweithredu a gymerwyd.
 - Pam y'u cymerwyd.
 - Beth arall y gellid bod wedi'i wneud ar y pryd.
 - Pam na ddigwyddodd hynny?
- Gofyn i'r adolygwyr gyfrannu eu barn am yr hyn a'u tarodd wrth ddarllen y llinellau amser a'r crynodebau, fel modd i ysgogi trafodaeth.
- Gofyn i'r grŵp nodi enghraifft o ymarfer effeithiol a dadansoddi ei wahanol elfennau.
- Gosod dalennau gwag o bapur siart troi ar y wal i gofnodi pwyntiau dysgu pwysig wrth iddynt godi, neu unrhyw syniadau ar gyfer camau gweithredu dilynol.
- Defnyddio papur gludiog i ychwanegu unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol eraill at y llinell amser gyfun wrth iddynt ddod i'r amlwg.

3.18. Nid yw'r rhestr uchod yn rhestr gyflawn a bydd hyblygrwydd yn hanfodol wrth ei defnyddio, oherwydd mae'n bosibl na fydd rhai dulliau'n gweddu i rai grwpiau. Awgrymir y dylai hwyluswyr fynd â 'phhecyn' o wahanol ddulliau gyda hwy fel bod ganddynt bethau eraill i'w defnyddio os na fydd rhywbeth yn gweithio.

Rhai enghreifftiau o ymarfer

I symud o'r cam cyflwyno i'r cam myfyrio: adrodd y stori

- Gan ddefnyddio'r llinell amser gyfun fel canllaw, bydd yr hwylusydd yn gofyn i bob cyfranogwr ddisgrifio ei ymwneud â'r sefyllfa. Mae'n bosibl mai'r ffordd orau o wneud hynny fydd dilyn trefn amser, a bydd yn cynnwys gofyn beth a pham.
- Wrth i hynny ddigwydd, bydd y grŵp a'r hwylusydd/hwyluswyr yn gwrandao'n astud ac yn gofyn cwestiynau i gael eglurhad.
- Ar ddiwedd pob cyfraniad neu bob cyfnod yr ymdrinnir ag ef, bydd yr hwylusydd yn crynhoi'r prif bwyntiau.
- Caiff unrhyw faterion arwyddocaol a ddaw i'r amlwg neu unrhyw bwyntiau dysgu cynnar eu nodi ar siart troi.
- Ar ddiwedd y sesiwn hon rhoddir amser i'r cyfranogwyr, fesul dau neu dri, brosesu'r hyn y maent wedi'i glywed a thynnu sylw at yr hyn sydd wedi'u taro.

I symud o'r cam adrodd stori i'r cam dadansoddi

- Mewn parau, bydd y cyfranogwyr yn symud o gwmpas y llinell amser ac yn nodi beth yw'r digwyddiadau arwyddocaol yn y sefyllfa yn eu barn hwy. Bydd parau cymysg (h.y. o wahanol gefndiroedd proffesiynol) yn helpu i ddyfnhau dealltwriaeth o wahanol safbwyntiau, rolau a gwybodaeth.
- Caiff y digwyddiadau hyn eu cofnodi ar siartiau troi a chynhelir rhywfaint o drafodaeth ynghylch pam y credir eu bod yn arwyddocaol. Yn ystod y cam hwn, gall yr hwylusydd/hwyluswyr ychwanegu'r hyn sydd wedi'u taro hwy hefyd, yn ogystal â chyfrannu argraffiadau unrhyw aelodau'r teulu y gellid bod wedi cyfarfod â hwy cyn y digwyddiad.
- Yna, gall trafodaethau ynghylch y pwyntiau arwyddocaol hyn fynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:
 1. Pa gamau a gymerwyd a pham?
 2. Beth, os oes unrhyw beth, y gellid bod wedi'i wneud yn wahanol? Pam na chafodd hynny ei wneud?
 3. Beth fyddai wedi helpu ar y pryd?
 4. Beth wnaethom ni'n dda?

I symud i'r cam crynhoi ac egluro'r pwyntiau dysgu

- Bydd yr hwylusydd yn crynhoi'r hyn yr ymdriniwyd ag ef a'r hyn sydd wedi dod i'r amlwg.
- Yna, bydd y cyfranogwyr yn rhoi ystyriaeth unigol i'r hyn y maent wedi'i ddysgu.
- Cynhelir trafodaeth fel grŵp mawr ynghylch y modd y gellid troi'r gwaith dysgu hwn yn bwyntiau gweithredu, a chânt eu nodi ar siartiau troi.
- I gloi, ceir rownd o gynlluniau gweithredu personol lle bydd pob cyfranogwr yn nodi un peth y bydd yn ei wneud o ganlyniad i bopeth a drafodwyd ac yr ymdriniwyd ag ef yn y digwyddiad.

4. Ar ôl y digwyddiad

Paratoi adroddiad yr adolygiad ymarfer plant

4.1 Ar ôl y digwyddiad dysgu, gwaith yr adolygydd yw casglu a chyfuno'r holl ddeunydd sy'n deillio o'r digwyddiad dysgu. Bydd hynny'n cynnwys cofnod y sawl a oedd yn cymryd nodiadau, unrhyw nodiadau ar bapur troi a wnaed gan y grŵp, ac argraffiadau a dealltwriaeth yr adolygydd ei hun o'r hyn a ddaeth i'r amlwg drwy'r digwyddiad. Yna, bydd yn rhaid i'r pwyntiau dysgu sy'n deillio o'r digwyddiad dysgu gael eu trawsnewid yn gopi drafft o adroddiad yr adolygiad ymarfer plant, gan ddefnyddio'r templed y cytunwyd arno ac sydd wedi'i nodi yn Atodiad 2 y canllawiau statudol.

4.2 Bydd y materion o ran dysgu a'r casgliadau sy'n deillio o'r digwyddiad dysgu yn llywio trafodaeth â'r *Panel Adolygu*. Yn ystod y cyfarfod hwn, ailystyrir y rhagdybiaethau gwreiddiol a luniwyd gan y Panel ac ystyrir p'un a aethpwyd i'r afael â'r rhagdybiaethau hynny yn y digwyddiad dysgu, a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy. Bydd yr adolygydd a'r Panel yn cytuno ar gopi drafft o adroddiad yr adolygiad ymarfer plant, ac anfonir y copi drafft hwnnw ynghyd â llinell amser gryno i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

Rhoi cyflwyniad i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant

4.3 Rhaid i'r copi drafft o adroddiad yr adolygiad ymarfer plant gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant er mwyn iddo gytuno arno a gweithredu yn ei gylch, a bydd yn rhaid cyflwyno cynllun gweithredu amlinellol hefyd. Mae'n bwysig disgrifio'r sefyllfa sy'n cael ei hadolygu ac egluro'r llinell amser wrth aelodau'r Bwrdd er mwyn iddynt ddeall y stori, a thrwy hynny, ddeall yr hyn a ddysgwyd. Yn ogystal, dylai'r cyflwyniad gynnwys disgrifiad cryno o'r digwyddiad dysgu ei hun o safbwynt y sawl a gymerodd ran yn y digwyddiad, ei broses a'i effaith.

Ôl-drafod

4.5 Dylid ystyried cynnal proses ôl-drafod ar gyfer y sawl a gymerodd ran yn y digwyddiad dysgu, ar gyfer aelodau'r teulu a allai fod wedi cyfrannu i'r adolygiad ac ar gyfer yr adolygydd/adolygwyr a'r *Panel Adolygu*.


4.6 O ran y sawl a gymerodd ran yn y digwyddiad dysgu, efallai y bydd trefnu i ailymgynnull yn rhy gymhleth, ond gallai fod yn ddefnyddiol pe bai aelodau'r *Panel Adolygu* yn cymryd cyfrifoldeb am adrodd yn ôl wrth bobl yn eu hasiantaeth neu'u maes gwasanaeth.

4.7 Dylai'r mater ynghylch adborth fod wedi'i godi pan gysylltwyd ag aelodau'r teulu am y tro cyntaf, cyn y digwyddiad dysgu. Efallai y bydd rhai'n ffafrio cynnal cyfarfod arall i esbonio beth sydd wedi digwydd, pa argymhellion sydd wedi eu gwneud a pha gamau a gaiff eu cymryd, ac mae'n bosibl y bydd rhai eraill yn credu bod galwad ffôn neu lythyr yn ddigon.

4.8 Gan fod hwn yn fframwaith newydd ar gyfer adolygiadau, a gan fod Byrddau Lleol Diogelu Plant yn dysgu trwy wneud, byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai'r adolygydd yn gallu cyfarfod â'r *Panel Adolygu* i fyfyrion ynghylch proses gyffredinol yr adolygiad.

Atodiad 1

Rhagamodau ar gyfer meithrin cydberthnasau effeithiol mewn grŵp



- DIOGELWCH** Mewn unrhyw sefyllfa lle mae newid personol, proffesiynol neu sefydliadol yn y fantol, mae diogelwch yn hanfodol i sicrhau bod grŵp yn gweithio'n effeithiol. Heb hynny, bydd aelodau'r grŵp yn swil ac yn amddiffynol, a phrif agenda bersonol pob cyfranogwr fydd goroesi'n bersonol. Ceir sgysiau ar lefel ddibwys a chymdeithasol wrth i bobl archwilio cymhelliant pobl eraill a'r bygythiad posibl iddynt hwy eu hunain.
- DIDWYLLEDD** Dim ond pan fydd pobl yn teimlo'n ddiogel y byddant yn dechrau rhoi'r gorau i gyflwyno persona cyhoeddus cwbl amhersonol ac yn dechrau datgelu delwedd fwy agos-atoch ohonynt eu hunain. Pan fydd y broses hon yn dechrau, bydd aelodau'r grŵp yn gallu bod yn ddidwyll ac yn onest gyda'i gilydd a gyda hwy eu hunain. Byddant yn gallu rhannu teimladau ac emosiynau a sôn yn ddidwyll am eu hagenda bersonol neu broffesiynol eu hunain ac am y materion sy'n bwysig iddynt.
- YMDDIRIEDAETH** Wrth rannu eu teimladau a'u hemosiynau fel hyn, bydd aelodau'r grŵp yn dechrau ymddiried yn yr aelodau eraill. Pan fydd modd ymddiried mewn pobl i beidio â chwerthin, difrïo neu gymryd mantais, bydd pobl yn llawer mwy parod i gymryd risgiau, o ran yr hyn y byddant yn ceisio ei wneud eu hunain ac o ran y modd y byddant yn rhyngweithio ag eraill, gan wybod na fydd yr hyn y byddant yn ei ddweud yn cael ei gymryd o chwith.
- HER** Yn yr amgylchedd hwn lle mae pobl yn ymddiried yn ei gilydd, gall aelodau'r grŵp herio'i gilydd yn wirioneddol, ar ffurf "gwrthdaro adeiladol". Gellir archwilio ac adolygu gweithdrefnau, ymddygiad a chanfyddiadau. Gellir gwirio'r gydberthynas (neu'r diffyg cydberthynas) rhwng cymhelliant ac effaith ymddygiad, a gellir adrodd yn ôl yn ei chylch (yn ei gylch).

NEWID

Yna, gellir disgwyl gweld newid neu gydweithredu gwirioneddol a pharhaol o ganlyniad uniongyrchol i gyfarfodydd adeiladol o'r fath rhwng pobl sy'n ymddiried yn ei gilydd.

Grŵp Datblygiad Proffesiynol, Prifysgol Nottingham yn Charles, M. gyda Stevenson, O. (1990)
'Multidisciplinary is Different', Prifysgol Nottingham.

Atodiad 2

Enghraifft o lythyr yn gwahodd rhywun i'r digwyddiad dysgu

Annwyl

Digwyddiad dysgu ynghylch plentyn (llythrennau cyntaf ei enw)

Dyddiad:

Lleoliad:

Un o nodweddion adolygiadau ymarfer plant yw'r ffaith eu bod yn cynnwys asiantaethau, staff a theuluoedd sy'n ymdrechu ar y cyd i fyfrio ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd a dysgu ohono er mwyn gwella ymarfer yn y dyfodol.

Yn unol â hynny, mae adolygiad cryno/estynedig yn cael ei gynnal ynghylch plentyn (llythrennau cyntaf ei enw). Mae'r broses adolygu yn defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar systemau lle canolbwyntir ar ymarfer proffesiynol amlasiantaethol gyda'r bwriad o nodi materion sylfaenol sy'n dylanwadu ar ymarfer yn fwy cyffredinol.

Mae cylch gorchwyl wedi'i lunio ac mae llinellau amser wedi'u paratoi yn rhan o'r adolygiad cryno/estynedig hwn, ond mae digwyddiad dysgu'n elfen ganolog o'r adolygiad hefyd. Dyma'r digwyddiad yr ydych chi'n cael eich gwahodd iddo oherwydd eich bod wedi ymwneud â gwaith gyda'r plentyn/person ifanc a'i deulu a bod gennych, felly, rywbeth i'w gyfrannu i'r gwaith dysgu cyffredinol. Disgwylir i chi fynychu'r digwyddiad hwn.

Y digwyddiad dysgu

Cynhelir y digwyddiad yn ar gan ddechrau am a gorffen am Darperir cinio.

Bydd y digwyddiad yn nodi materion allweddol sy'n berthnasol i un asiantaeth neu'n berthnasol ar sail ryngasiantaethol, pwyntiau dysgu a materion y dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant eu hystyried. Caiff y digwyddiad ei hwyluso gan **adolygydd yr adolygiad ymarfer plant**, a fydd yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar systemau ac a fydd yn strwythuro'r diwrnod mewn modd a fydd yn helpu'r cyfranogwyr i fyfrio, meddwl a dysgu gyda'i gilydd mewn amgylchedd diogel.

Bwriedir cysylltu â'r teulu i weld a fyddent yn hoffi cyfarfod â'r adolygydd cyn y digwyddiad, ac os felly bydd modd i unrhyw sylwadau ac arsylwadau y gallent fod am eu gwneud gael eu hymgorffori yn y trafodaethau a'r myfyrdodau ar y diwrnod.

Paratoi ar gyfer y digwyddiad

Byddai'n ddefnyddiol pe baech yn gallu rhoi rhywfaint o ystyriaeth i'ch ymwneud chi â phlentyn (**Ilythrennau cyntaf ei enw**) a'i deulu, gan feddwl yn benodol am y canlynol:

- Asesiadau.
- Penderfyniadau.
- Camau gweithredu.
- Unrhyw ryngweithio â gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill.
- Agweddau ar ymarfer da.
- Agweddau lle gellid gwneud rhai gwelliannau.

Er mwyn eich helpu i baratoi, byddwch hefyd yn cael y dogfennau canlynol:

- Cylch gorchwyl yr adolygiad cryno/estynedig hwn.
- Copi o ganllawiau Llywodraeth Cymru, *Trefniadau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol*.

Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at weithio gyda chi yn y digwyddiad dysgu, ac rydym yn gobeithio y byddwch o'r farn bod y dull gweithredu hwn yn adeiladol ac yn ddefnyddiol. Yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen eglurhad pellach arnoch.

Dylech ddychwelyd y slip ymateb wedi'i lenwi..

Cofion cynnes

Cadeirydd y *Panel Adolygu*

Atodiad 3

Y gwahanol gyfnodau yn neinameg y grŵp

Y GAEAF:



Gallai'r ddaear fod wedi rhewi a gallai'r tywydd fod yn stormus.

Dyma'r cyfnod pan fydd pobl yn amddiffynol, pan fydd y grŵp yn dechrau fel rheol.

Bydd lefelau ymddiriedaeth yn isel a bydd lefelau gofid yn uchel.

Y GWANWYN:



Bydd bywyd newydd yn dechrau ymddangos drwy wyneb y ddaear.

Dyma'r cyfnod o weithio trwy agwedd amddiffynol. Bydd y grŵp wedi dechrau, bydd lefelau ymddiriedaeth yn codi a bydd lefelau gofid yn gostwng.

YR HAF :



Ceir digon o dwf a bydd yr haul yn uchel.

Dyma'r cyfnod o ymddwyn yn ddiffuant, lle bydd y grŵp yn gweithio'n galed ac yn cyflawni ei nodau a'i amcanion. Bydd lefelau ymddiriedaeth yn uchel a bydd gofid yn ysgogi twf a newid.

YR HYDREF:



Caiff y ffrwythau eu cynaeafu a'u storio; bydd y cynaeafwyr yn diolch ac yn ymadael.

Dyma'r cyfnod o ddod â phopeth i ben. Wrth i'r grŵp dynnu at ei derfyn, bydd yr aelodau'n casglu ac yn adolygu ffrwyth eu gwaith dysgu ac yn paratoi i'w drosglwyddo i fywyd yn y byd ehangach y tu allan.

Atodiad 4

Enghraifft o egwyddorion gweithio ar gyfer y digwyddiad dysgu

1. Bydd gan bob aelod o'r grŵp gyfraniad dilys i'w wneud, a bydd yr aelodau eraill yn ei werthfawrogi ac yn gwrando arno.
2. Os ceir gwahaniaeth barn, bydd pobl yn gwrando ar y farn honno'n sensitif neu'n ei hamau mewn modd sy'n adeiladol ac yn alluogol i broses y grŵp a'i amcanion.
3. Byddwn i gyd yn ymdrechu i herio arferion gormesol yn ein gwaith a mynd i'r afael ag arferion o'r fath, a bydd y grŵp cyfan yn rhannu'r cyfrifoldeb am fynd i'r afael ag iaith neu ymddygiad gormesol mewn modd sensitif ac adeiladol.
4. Bydd y cyfranogwyr yn cynnal yr egwyddor o gyfrinachedd wrth ymdrin â materion neu deimladau personol a gaiff eu rhannu yn ystod ein gwaith gyda'n gilydd.
5. Caiff cwestiynau naif eu hystyried yn arferol.

AC ?????? Beth arall y mae angen i *chi* gytuno arno er mwyn cymryd rhan yn llawn ac yn effeithiol?

Atodiad 5

Enghraifft o ffurflen werthuso

Enw:

Teitl swydd/rôl:

Dyddiad y digwyddiad dysgu:

- 1. A gyflawnodd y digwyddiad dysgu hwn ei amcanion?**
- 2. Beth yw eich barn am y digwyddiad hwn?**
- 3. Beth oedd fwyaf defnyddiol yn eich barn chi?**
- 4. Beth oedd leiaf defnyddiol yn eich barn chi?**
- 5. A ydych wedi dysgu unrhyw beth o'r digwyddiad hwn, yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio yn eich gwaith?**
- 6. A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau perthnasol eraill ar gyfer gwella?**

Diolch am gymryd rhan ac am eich cymorth

Atodiad 6

Dulliau hwyluso

❖ Y dull hierarchaidd

Gyda'r dull hwn bydd yr hwylusydd yn pennu cyfeiriad y broses ddysgu ac yn gwneud pethau ar ran y grŵp. Dyma enghraifft o arwain o'r tu blaen gan feddwl a gweithredu ar ran y grŵp. Oherwydd hynny, yr hwylusydd fydd yn penderfynu ynghylch yr amcanion a'r rhaglen, yn dehongli ac yn rhoi ystyr, yn herio gwrthwynebiad, yn rheoli teimladau'r grŵp ac yn darparu strwythurau ar gyfer dysgu.

❖ Y dull cydweithredol

Gyda'r dull hwn bydd yr hwylusydd yn rhannu pŵer dros lwybr y broses ddysgu ac yn rheoli'r dimensiwn gwahanol **gyda'r** grŵp. Bydd yr hwylusydd yn galluogi ac yn arwain y grŵp i fod yn fwy hunangyfeiriol, ac er bod barn yr hwylusydd yn ddylanwadol, nid yw'n derfynol a bydd yn un farn ymysg llawer. Caiff canlyniadau eu trafod bob amser, a chaiff prosesau dysgu eu llunio trwy gydweithredu.

❖ Y dull ymreolaethol

Gyda'r dull hwn bydd yr hwylusydd yn parchu ymreolaeth hollol y grŵp. Ni fydd yn gwneud pethau ar ran aelodau'r grŵp na gydag aelodau'r grŵp; yn hytrach, bydd yn rhoi rhyddid iddynt ddarganfod eu ffordd eu hunain gan lunio eu barn eu hunain, heb unrhyw ymyrraeth gan yr hwylusydd. Ymarfer heb ei gymell a hunangyfeirir yw'r sylfaen ar gyfer dysgu. Nid oes a wnelo â gwrthod bod yn gyfrifol; mae a wnelo â'r ddawn gynnwl i greu amodau lle gall pobl benderfynu drostynt eu hunain wrth ddysgu.

Heron, J. (1989) *The Facilitators Handbook*. Llundain: Kogan Page.